# Polisi Gwrth-Hiliaeth

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wraidd cynllunio, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, rydym yn addysgu am hawliau plant, yn ogystal â modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas.

**Rhesymeg**
Ni fydd Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn goddef unrhyw fath o hiliaeth ac mae wedi ymrwymo i ddatblygu ethos gwrth-hiliol. Mae polisi ac arfer gwrth-hiliol yr ysgol yn helpu i nodi a newid yr agweddau hynny sy'n arwain at wahaniaethu negyddol yn erbyn pobl ar sail eu hil, eu hethnigrwydd neu eu crefydd.

**Nodau**
- Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg sydd â'r nod o ddatblygu personoliaeth, doniau, galluoedd meddyliol a chorfforol yr unigolyn i'w lawn botensial
- Bydd ysgol Gymraeg Pontybrenin yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a bydd pob disgybl yn cael cyfleoedd i astudio'i werthoedd ei hun a gwerthoedd pobl eraill, gwerthfawrogi amrywiaeth a datblygu parch at eraill
- Bydd Ysgol Gymraeg Pontybrenin yn cefnogi cydraddoldeb, cyfiawnder a pharch y naill i'r llall.

**Arfer da**
- Mae Uwch-reolwyr a staff yn dangos ymrwymiad cryf i gydraddoldeb a thegwch.
- Mae Uwch-reolwyr yn darparu arweiniad a chefnogaeth glir i staff wrth ddatblygu cydraddoldeb hiliol.
- Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo mynediad a llwyddiant ar gyfer pob disgybl ac yn adlewyrchu amrywiaeth ethnig, diwylliannol a chrefyddol.
- Caiff cynnydd a chyflawniadau disgyblion eu monitro'n effeithiol a chymerir camau priodol i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'i botensial.
- Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o gyflawniadau disgyblion ac mae gan ddisgyblion ddisgwyliadau uchel ohonynt hwy eu hunain ac eraill.
- Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn dangos ymrwymiad i strategaethau'r ysgol ar gyfer mynd i'r afael â hiliaeth a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, ac yn cyfrannu'n gadarnhaol atynt.
- Mae gan ddisgyblion hunan-barch, maen nhw'n dangos parch at eraill ac maent yn adnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth.

**Aflonyddu hiliol**
Gall hyn gynnwys:
1 Ymosodiad corfforol
2 Galw enwau sy'n bychanu ac yn sarhau a jôcs hiliol
3 Graffiti hiliol
4 Gwisgo bathodynnau hiliol
5 Cario neu ddosbarthu deunydd hiliol fel taflen neu gylchgronau
6 Cam-drin a bygythiadau geiriol a di-eiriau
7 Annog pobl eraill i ymddwyn mewn modd hiliol
8 Sylwadau hiliol yn ystod trafodaeth mewn gwersi*
9 Ymdrechion i recriwtio ar gyfer sefydliadau neu grwpiau hiliol
10 Gwawdio unigolyn am wahaniaethau diwylliannol
11 Gwrthod cydweithredu ag eraill oherwydd eu lliw, eu hethnigrwydd neu eu hiaith
12 Sylwadau ysgrifenedig difrïol
13 Cyrchu deunydd hiliol ar y rhyngrwyd *oni bai ei fod yn rhan o astudiaeth o hiliaeth o fewn y cwricwlwm

**Camau gweithredu i'w cymryd**

• Dylid dweud wrth y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth am bob achos o hiliaeth (gan ddefnyddio Atodiad 1)

• Dylai disgyblion a rhieni ddeall y bydd pob honiad o ddigwyddiadau hiliol yn cael ei drin â'r difrifoldeb mwyaf. Mae Uwch-reolwyr yn gyfrifol am benderfynu sut i ymateb i ddigwyddiadau penodol a dylent geisio ystyried y canlynol:

- oedran yr unigolion
- natur y digwyddiad
- a oes unrhyw anghenion ymddygiadol a allai effeithio ar ymddygiad unigolyn tuag at eraill
- a fu unrhyw ddigwyddiadau hiliol blaenorol yr oedd yr unigolion hynny'n rhan ohonynt
- pa gamau y dylid eu cymryd
- eu dyletswydd gofal i'r holl ddisgyblion dan sylw (dioddefwr/dioddefwyr a chyflawnwr(wyr)

• Byddwn yn cofnodi ac yn gweithredu ar ddigwyddiadau o'r fath ac yn ymchwilio iddynt a byddwn yn cysylltu â rhieni

• Eglurir bob amser wrth ddisgyblion sy'n troseddu fod ymddygiad o'r fath yn annerbyniol a byddwn yn siarad â hwy ynghylch pam eu bod wedi ymddwyn felly.

• Dylid sicrhau dioddefwyr cam-drin hiliol y bydd y digwyddiad yn cael ei gymryd o ddifrif a'i gefnogi yn dilyn y digwyddiad. Os yw'r digwyddiad yn rhan o gam-drin parhaus, dylai staff fod yn ymwybodol y gall y plentyn fod yn teimlo effeithiau bwlio.

• Adroddir am ddigwyddiadau hiliol yn yr ysgol wrth yr AALl yn syth ar ôl y digwyddiad (drwy e-bostio Atodiad 1).

• Os bydd unrhyw aelod o staff yn ymwybodol o ddigwyddiad hiliol y tu allan i'r ysgol, sydd efallai'n cynnwys rhieni neu ofalwyr, dylid cyfeirio hyn hefyd at y Pennaeth a all gofnodi unrhyw ddigwyddiadau o'r fath a rhoi gwybod i asiantaeth briodol amdanynt (e.e. yr heddlu)

**Digwyddiadau Hiliol yn Cynnwys Staff**

Gall digwyddiadau hiliol weithiau gynnwys aelodau o staff fel cyflawnwyr neu ddioddefwyr. Pan fydd aelod o staff yn gysylltiedig â digwyddiad hiliol (naill ai fel dioddefwr neu gyflawnwr) bydd y Pennaeth neu'r dirprwy bennaeth yn gofyn am gyngor gan Adnoddau Dynol a'r Uned Ysgolion a Llywodraethwyr o fewn yr Awdurdod Lleol.

**Cynnwys Rhieni Dioddefwyr neu Gyflawnwyr Honedig**

Bydd rhieni dioddefwyr a chyflawnwyr honedig yn cael gwybod am honiad dros y ffôn neu'n bersonol. Bydd rhieni'n cael adroddiadau cynnydd rheolaidd pan fydd digwyddiad honedig yn cael ei adolygu a bydd yn cael gwybod am y canlyniadau. Ymatebir i bryderon gan rieni mewn modd priodol.

**Trais yn erbyn Staff**

Rhaid i staff sydd dan fygythiad gan riant neu ddisgybl roi gwybod i'r pennaeth neu'r dirprwy bennaeth am y digwyddiad ar unwaith.

| Mabwysiadu'r Polisi |
| --- |
| Dyddiad yr Adolygwyd gan y Llywodraethwyr: 15/3/22 |
| Dyddiad cadarnhau a chymeradwyo gan y Corff Llywodraethu<br><br>llawn: 15/3/22 |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: |